

Cynhaliwyd Cyfarfod cyffredinol Blynyddol o bell o Gyngor Cymuned Talylychau trwy gynhadledd fideo/ffôn nos Fawrth 3 Tachwedd 2020 am 8pm.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: trwy fideo – Janine Roberts [Cadeirydd], Sarah Walters [Is-gadeirydd], Pauline George, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan [Clerc]. Dros y Ffôn – Marged Bowen a John Williams. Ymddiheuriadau: Steve Haines a Rhys Williams.

Datganiad buddiant – Dim.

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod 06.10.2020 yn gywir.

Materion sy'n codi.

Ni chafwyd siec yn y post. Roedd stop wedi'i roi ar siec a oedd yn daladwy i F. Lewis/Lewis Fencing gan nad oedd wedi dod i law. Cafodd siec newydd ei hanfon.

Gwasanaeth Cyfieithu. Cytunwyd i anfon at Trywydd nes bod Cysgair wedi'i osod.

Rhoddodd y Cynghorydd Sir Joseph Davies ddiweddariad ar y carafanau ar y cae cyn Fferm Goitre.

Mynwent Eglwys/Taliadau i'w roi ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr.

Rhoddodd y Cynghorydd Sir Joseph Davies ddiweddariad ynghylch parcio yn achosi rhwystr ar y palmant y tu allan i Dyffryn Ig. Roedd ateb wedi dod i law gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn rhoi gwybod bod yr awgrymiadau a wnaed wedi'u hanfon at yr Adran sy'n gyfrifol am wella priffyrdd ac sy'n rheoli'r gyllideb ar gyfer y math hwn o waith.

Ethol swyddogion newydd ar gyfer 2020-21. Cadeirydd Sarah Walters. Diolchodd Janine Roberts i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y 18 mis diwethaf a dymunodd y gorau i Sarah yn rôl y Cadeirydd. Diolchodd Sarah Walters i bawb am eu cefnogaeth a diolchodd i Janine am ei gwaith dros y 18 mis diwethaf. Is-Gadeirydd. Cynigiwyd ac eiliwyd ein bod yn gofyn i Steve Haines. Byddai'r Clerc yn cysylltu â Steve Haines.

Cytunwyd i dalu'r canlynol: J Morgan, Cyflog y Clerc £168.88. CThEM £42.20. S Walters, Treuliau Clerc y Fynwent £10.00. Gwasanaeth Cyfieithu Trywydd £33.84. Rhodd ar gyfer Apêl y Pabi £30.00. Roedd y Gwasanaeth Coffa i'w gynnal ddydd Mercher 11 Tachwedd, i ddechrau am 10.50am y tu allan i'r Eglwys. Byddai'r Clerc yn rhoi gwybod i Warden yr Eglwys mai'r gobaith oedd y byddai tri aelod yn bresennol. Cafwyd rhodd o £5.00 gan yr Eglwys oddi wrth unigolyn a oedd wedi casglu afalau bach surion yn y Fynwent. Cytunwyd i roi'r £5.00 hwn yn ôl i Gronfeydd yr Eglwys.

Trafodwyd yr ohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a'r ohebiaeth a anfonwyd trwy neges e-bost.

Cafwyd neges e-bost ynglŷn â chlymlog Japan yn tyfu wrth ymyl ffordd Cwmbwr i Gwmdu. Byddai'r Cynghorydd Sir Joseph Davies yn rhoi gwybod i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu – Ymarfer Monitro Blynyddol. Cytunwyd y dylai'r Clerc ei gwblhau. Dylai'r Cadeirydd ei wirio.

Llythyr gan Un Llais Cymru yn gofyn am fanylion y cynrychiolydd enwebedig. Cytunwyd i anfon enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn y Cadeirydd, Sarah Walters.

Canfasio Blynyddol – Cofrestr o Etholwyr – 2020.

Traws Link Cymru. Ymgyrch Rheilffordd Gorllewin Cymru.

*Clerks & Councils Direct.*

Archwiliad Blynyddol. Tystysgrif Archwilio ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyflwynwyd Adroddiad yr Archwilydd Allanol. "Ar sail ein hadolygiad, ac yn ein barn ni, mae'r wybodaeth sydd yn y Ffurflen Dreth Flynyddol yn cyd-fynd ag arferion priodol, ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw deddfwriaeth berthnasol na gofynion rheoliadol wedi cael eu bodloni. Rhybudd o Gasgliad yr Archwiliad. Blwyddyn cyfrifon a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. I'w osod yn y ddau hysbysfwrdd.

Cytunwyd i godi £10.00 am gopiâu y gofynnid amdanant.

Cynllunio.

Nid oedd yr aelodau'n hapus â sgrin newydd y Rhestr Gynllunio gan Gyngor Sir Caerfyrddin, a oedd bellach ar ffurf Excel, ac roeddent yn cael trafferthion o ran ei agor. Byddai'r Cynghorydd Sir Joseph Davies yn rhoi gwybod i Adran Gynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

Archwiliad o Fynwent yr Eglwys.

Cynhaliwyd cyfarfod safle ar 10 Hydref am 10 o'r gloch ym Mynwent yr Eglwys. Roedd y canlynol yn bresennol: Janine Roberts [Cadeirydd], Marged Bowen, John Williams, Steve Haines a Jane Morgan [Clerc]. Archwiliwyd y beddau ymhellach a nodwyd y canlynol.

1. Bedd Albert Dexter. Cytunwyd y dylai'r Clerc gysylltu â'r Saer Maen, Williams & Son, Sanclêr.
2. David John Davies. Roedd y garreg fedd yn ansefydlog ac roedd angen ei gosod yn fflat. Byddai Sarah Walters yn cysylltu â Gareth, y Torrwr Beddau, i gael pris am y gwaith. Ar ôl cael y pris, dylai'r Clerc ei anfon at yr holl Gynghorwyr i'w gymeradwyo.
3. Cecilia Moore. Cytunwyd i geisio cysylltu â'r teulu yn gyntaf, os na fyddai modd cysylltu, yna dylid gosod y garreg fedd yn fflat.

Unrhyw faterion eraill.

Cytunodd y Cynghorydd Sir Joseph Davies i roi gwybod am y canlynol i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Carafán Statig yn Abercrymlyn.

Roedd y ffordd wedi suddo eto, y Bont cyn y mynediad i Llether.

Nodwyd bod y coed yn tyfu allan i'r palmant yn Rhoseinon. Byddai'r Cynghorydd Sir Joseph yn gwneud ymholiadau.

Daeth y cyfarfod i ben tua 9.45pm.

Byddai'r cyfarfod nesaf o bell yn cael ei gynnal nos Fawrth 1 Rhagfyr am 8pm.